

# MORUS DWYFECH, neu MORUS ap DAFYDD ab IFAN ab EINION (fl. c. 1523-1590), bardd

**Enw:** Morus ap Dafydd ab Ifan ab Einion  
**Rhyw:** Gwryw  
**Galwedigaeth:** bardd  
**Maes gweithgaredd:** Eisteddfod; Barddoniaeth  
**Awdur:** Ray Looker

o Eifionydd neu o L n, a gymerodd ei enw, y mae'n debyg, oddi wrth yr afon Dwyfech (Dwyfach heddiw). Cafodd ei drwydded yn eisteddfod Caerwys, 1523. Ni wyddys lawer o fanylion am ei fywyd, ond awgrymir iddo ddal perthynas agos â theulu Talhenbont cyn iddo fynd fel bardd teulu i [Gefnamwlch](#). Ymddengys iddo gyfyngu ei deithiau clera i Wynedd; canodd i'r rhan fwyaf o deuluoedd bonheddig y cylch, ac yn eu plith rai [Cefnamwlch](#), [Clenennau](#), [Ystumcegid](#), Talhenbont, [Plas Du](#), Glyn Dwyfech, [Castellmarch](#), Llwyndyrus, [Bodfel](#), [Glynllifon](#), Trefeilir, a [Gwydir](#). Gadawodd hefyd lawer o gerddi ar amrywiol destunau eraill, yn cynnwys cywyddau dychan, cywyddau ac englynion i ferch, amryw englynion yn cynnwys rhai crefyddol, un i'w wraig ei hun, rhai ateb i [Huw Arwystl](#) ac hefyd i [Wiliam LL n](#), un i dref Caernarfon, ac un arall i Nefyn. Gwnaeth ei ewyllys ar ffurf tri englyn. Ynddi dymunai ei gladdu ym Mhenllech, ac ymddengys oddi wrth gywyddau marwnad a gyfansoddodd [Siôn Phylip](#) a [Huw Pennant](#) i'r bardd iddo gael ei ddymuniad.

## Awdur

Ray Looker

## Ffynonellau

Owen Owens, 'Gweithiau Barddonol Morus Dwyfech' (traethawd M.A. Prifysgol Cymru, 1944, yn LI.G.C.)

## Darllen Pellach

Erthygl Wicipedia: [Morus Dwyfech](#)

## Dolenni Ychwanegol

Wikidata: [Q6915147](#)

Dyddiad cyhoeddi: 1953

Hawlfraint Erthygl: <http://rightsstatements.org/page/InC-RUU/1.0/> 

Mae'r Bywgraffiadur Cymreig yn cael ei ddarparu gan Lyfrgell Genedlaethol Cymru a Chanolfan Uwchefrydiau Cymreig a Cheltaidd Prifysgol Cymru. Mae ar gael am ddim ac nid yw'n derbyn cymorth grant. Byddai cyfraniad ariannol yn ein helpu i gynnal a gwella'r wefan er mwyn i ni fedru parhau i gydnabod Cymry sydd wedi gwneud cyfraniad nodedig i fywyd yng Nghymru a thu hwnt.

Ewch i'n [tudalen codi arian](#) am ragor o wybodaeth.

